## P-04-475 Yn eisiau - Bysiau i Feirionnydd

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

• Adolygu'r arian a ddarperir ar gyfer gwasanaethau bysiau gwledig i sicrhau bod gwasanaethau digonol ar gael ar gyfer Gwynedd yn ei chyfanrwydd, ond yn benodol ar gyfer de Meirionnydd.

• Ystyried rhoi sicrwydd bod arian ar gael i ddarparu ar gyfer gwasanaethau ychwanegol, er mwyn ei gwneud yn haws i gyrraedd gwasanaethau iechyd, addysg a chyflogaeth, ac i gefnogi economi a thwristiaeth yn yr ardal.

**Prif ddeisebydd:** Barbara Snowball

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 30 Ebrill 2013

**Nifer y llofnodion** : 174